OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2019 Rhif 467 (Cy. 112)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2019

Gwnaed - - - -	*5 Mawrth 2019*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*6 Mawrth 2019*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2019*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 125 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2019 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2019.

Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006

2. Yn rheoliad 4 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006(**2**) (cyfrifo ffioedd)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "£14.00" rhodder "£14.30";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "£45.00" rhodder "£46.00";

(c) ym mharagraff (3), yn lle "£195.00" rhodder "£199.10";

(d) ym mharagraff (4), yn lle "£195.00" rhodder "£199.10"; ac

(e) ym mharagraff (5), yn lle "£14.00" rhodder "£14.30".

Dirymiadau

3. Mae'r Rheoliadau a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2017(**3**);

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 2006/491 (Cy. 60), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/339 (Cy. 83) ac O.S. 2018/297 (Cy. 55); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**3**) O.S. 2017/339 (Cy. 83).

(b) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2018(**4**).

Vaughan Gething
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

5 Mawrth 2019

(**4**) O.S. 2018/297 (Cy. 55).

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/491 (Cy. 60)) ("Rheoliadau 2006").

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 4 o Reoliadau 2006 (cyfrifo ffioedd) drwy gynyddu'r ffi gymwysadwy sydd i'w thalu am gwrs o driniaeth Band 1, Band 2 a Band 3.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.